16 Mawrth 2018

Annwyl Gyfeillion,

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn bwriadu cynnal un sesiwn graffu gyda CBAC a Cymwysterau Cymru ddechrau mis Mai 2018. Pwrpas y sesiwn fydd trafod darparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu i ddisgyblion sy'n dilyn cymwysterau cyffredinol diwygiedig (TGAU a Safon Uwch) yng Nghymru. Rydym yn pryderu'n arbennig am y prinder adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r adnoddau sydd ar gael mewn pynciau penodol.

Rydym wedi clywed pryderon anecdotaidd nad yw rhai disgyblion wedi gallu cael gafael ar adnoddau yn eu hiaith o ddewis sy'n angenrheidiol, yn eu barn nhw, i gyflawni eu potensial.

Rydym wedi derbyn llythyrau gan CBAC a Cymwysterau Cymru yn nodi eu safbwynt. Atodaf yr ohebiaeth er gwybodaeth (gweler Atodiad A).

Er mwyn llywio ein gwaith ar hyn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallwch ddarparu unrhyw wybodaeth neu safbwyntiau sydd gennych ar y canlynol:

- p'un a oes prinder gwerslyfrau neu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg, neu gyfrwng Saesneg, i ddisgyblion yng Nghymru sy'n dilyn TGAU a Safon Uwch;
- p'un a oes prinder neu broblemau gydag unrhyw bynciau penodol;

- p'un a ydych yn credu bod yr anawsterau a nodir wedi cael effaith ar ganlyniadau disgyblion neu y byddant yn cael effaith arnynt;
- eich hyder o ran yr adnoddau a'r gwerslyfrau fydd ar gael yn y dyfodol, o ystyried natur gynyddol unigryw cwricwlwm Cymru;
- rôl CBAC a Chymwysterau Cymru wrth sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau; ac
- unrhyw syniadau neu sylwadau eraill ar ddarparu adnoddau dysgu yng Nghymru.

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb erbyn **diwedd y dydd, dydd Iau 19 Ebrill.**

Mae croeso i chi gysylltu â'r Clerc, Llinos Madeley, os hoffech drafod y cais yn fanylach – Llinos.Madeley@cynulliad.cymru / 0300 200 6352.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Y rhai sydd wedi derbyn y llythyr: Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Estyn, ERW, EAS, CSCJES, GwE, NAHT Cymru, ASCL Cymru, NEU, NASUWT, UCAC a Voice Cymru